NODIADAU CANLLAW

Cynllun Cynorthwyo Gwaed wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood Support Scheme

# FFURFLEN J - CAIS AM GRANT DEWISOL UNTRO

**DIWEDDARIAD**

**Bydd taliadau grant dewisol a dderbynnir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2025 yn cyfrif tuag at eich pecyn iawndal terfynol ac yn cael eu tynnu o unrhyw ddyfarniad iawndal yn y dyfodol, ac eithrio therapi siarad a cheisiadau Tystysgrif Rhagdalu Presgripsiwn y GIG.**

NODIADAU CANLLAW AR GYFER YMGEISWYR

Mae'r ffurflen hon ar gyfer buddiolwyr sydd eisoes wedi cofrestru gyda Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ac sy'n dymuno gwneud cais am y Grant Dewisol Untro.
Taliadau grant bach untro yn ôl disgresiwn y gall buddiolwyr ac, mewn rhai achosion, priod/partneriaid mewn profedigaeth wneud cais amdanynt i dalu cost rhai eitemau neu wasanaethau hanfodol sy'n ymwneud ag iechyd.

Mae'n bosibl y bydd angen tystiolaeth i brofi angen.

Rhaid i chi wneud cais, a chael cymeradwyaeth, cyn ymrwymo i daliadau neu unrhyw wasanaethau neu wariant. **Noder, mae'n bosibl na fydd unrhyw daliadau a wnewch cyn cael cymeradwyaeth yn cael eu had-dalu.**

Pwrpas Grantiau Untro ydy rhoi cymorth i fuddiolwyr drwy gyfrannu at gost eitemau neu wasanaethau hanfodol, gwerth dros £200. Fel arfer, dim ond i dalu am gostau eitemau neu wasanaethau sydd eu hangen, o leiaf yn anuniongyrchol, o ganlyniad i effeithiau hepatitis C neu haint HIV y buddiolwr y bydd y grantiau ar gael.

Mae grantiau ar gael hefyd i helpu gyda'r newid yn dilyn marwolaeth buddiolwr heintiedig. Mae grantiau o'r fath ar gael i wragedd a gwŷr gweddw, partneriaid hirdymor, neu blant dan 21 oed sydd mewn addysg amser llawn lle mae eu priod, eu partner neu eu rhiant wedi marw.

Dyma enghreifftiau o grantiau gwerth is sydd ar gael:

- Gwelyau a matresi arbenigol
- Cymhorthion symudedd
- Addasiadau gwerth is i'r cartref sy'n gysylltiedig ag iechyd
- Cymorth neu ofal arall i helpu person i aros yn ei gartref ei hun
- Atgyweirio neu addasu cerbydau os yw car yn hanfodol, er enghraifft i gyrraedd yr ysbyty
- Cynilion Motability - bob 3 blynedd)
- Cyrsiau addysg neu hyfforddiant

- Egwylion seibiant a gofal seibiant oherwydd cymhlethdodau triniaeth
- Gofal iechyd gan gynnwys deintyddiaeth, ceiropractydd a ffisiotherapi

Esiamplau o grantiau gwerth uwch:

- Addasiadau i'r cartref (bob 10 mlynedd)
- Costau ar gyfer darparu gofal yn y cartref
- Disodli incwm yn ystod amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer triniaeth Hepatitis C

Gellir cael rhagor o fanylion ar ein gwefan yn **wibss.wales.nhs.uk**

Er mwyn gwneud cais, yn gyntaf, bydd angen i chi wirio p'un a oes cymorth ar gael gan yr awdurdod lleol, y GIG neu gorff cyhoeddus arall.  Mewn rhai achosion, efallai y byddant ond yn darparu cyfraniad neu rywfaint o'r cymorth sydd ei angen arnoch.  Os felly, efallai y bydd y cynllun yn gallu cefnogi'r cymorth hwnnw.

Rydym yn asesu pob cais fesul achos.  Er ein bod ni'n gofyn am wybodaeth ynglŷn ag incwm eich cartref, nid yw hyn yn cael ei ystyried wrth asesu cais. Drwy ddarparu'r wybodaeth hon, rydych yn galluogi WIBSS i asesu p'un a allai fod gennych hawl i gael unrhyw fudd-daliadau ychwanegol nad ydych yn eu hawlio ar hyn o bryd.

Wrth lenwi'r ffurflen hon, does dim angen i chi gynnwys taliadau rydych chi'n eu derbyn gan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru, nac unrhyw log a enillir ar y taliadau hynny.  Gellir ystyried unrhyw daliadau misol neu chwarterol rheolaidd o'r cynllun wrth asesu cyfanswm eich incwm.

SUT I WNEUD CAIS

Llenwch bob adran o'r ffurflen hon a'i hanfon gyda'r dogfennau ategol i:

**Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru**
**Canolfan Ganser Felindre**
**Heol Felindre**
**Yr Eglwys Newydd**
**Caerdydd**
**CF14 2TL**

Y DOGFENNAU GOFYNNOL SYDD EU HANGEN

Er mwyn ein galluogi i asesu eich cais, mae'n ofynnol i chi ddarparu'r dogfennau canlynol:

- Dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith, yr eitemau neu'r gwasanaethau y byddech yn eu prynu gyda'r grant.

  Dylid darparu dau ddyfynbris, oni bai mai dim ond un darparwr addas sydd (os felly, rhowch resymau dros hyn).  Gellir defnyddio dolenni i dudalennau gwe, neu sgrinluniau ohonynt, i ddangos cost eitem neu wasanaeth.

- Os yn berthnasol, unrhyw waith papur sydd gennych yn ymwneud ag unrhyw ganiatâd a gawsoch (e.e. gwarantau adeiladu, caniatâd cynllunio ac ati).

- Ar gyfer ceisiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd (e.e., cymhorthion symudedd, gofal seibiant, addasiadau i'r cartref neu gerbydau, cymorth i ddarparu gofalwr, ac ati), dylech gynnwys llythyr gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig, fel meddyg neu therapydd galwedigaethol, yn cadarnhau pam y byddai'r grant o fudd i chi.

## BETH NESAF

Bydd Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn adolygu'r cais i sicrhau eich bod chi’n gymwys i dderbyn y taliad.   Os oes angen unrhyw fanylion ychwanegol, bydd y cynllun yn cysylltu â chi i ofyn am y rhain.  Cyn belled â bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn cadarnhau eich bod chi’n gymwys, byddwch yn derbyn llythyr gan y cynllun i gadarnhau swm y taliadau sydd i'w gwneud a'r dyddiad y bydd y taliadau'n cael eu hanfon atoch.

Os byddwch yn dibynnu ar gael grant gan WIBSS i wneud y pryniant neu i'r gwaith gael ei wneud, rydym yn eich cynghori i beidio â gwneud dim nes y byddwch yn cael cadarnhad ysgrifenedig gan WIBSS bod y cais am grant wedi bod yn llwyddiannus.

## HELP GYDA’R FFURFLEN HON

Os ydych chi eisiau unrhyw help i lenwi’r ffurflen hon, cysylltwch â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ar 02921 500900.

# FFURFLEN J CAIS AM GRANT DEWISOL UNTRO

## RHAN 1 DIOGELU DATA A DATGANIAD YR YMGEISYDD

✓ Rhowch dic i gadarnhau

☐ Rwyf yn deall y gellir rhannu'r data a ddarparaf gyda darparwyr gwasanaethau'r GIG a Gwasanaethau Gwrth-dwyll i sicrhau taliad cywir ac amserol ac at ddibenion, neu i atal, canfod ac ymchwilio i droseddau.

DATGANIAD GAN YR YMGEISYDD

Rwyf yn cytuno bod yr wybodaeth a roddaf ar y ffurflen hon yn gyflawn ac yn gywir.

Rwyf yn cytuno i ad-dalu unrhyw arian a dderbyniaf y canfyddir nad oes gennyf hawl iddo mwyach.

Rwyf yn deall, os ydw i'n rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn yn fwriadol, y gallaf gael fy erlyn.

Rwyf yn cytuno i'r GIG gael unrhyw ddata a gedwir arnaf gan Ymddiriedolaeth Eileen, Ymddiriedolaeth Macfarlane, MFET Ltd, Cronfa Skipton neu Sefydliad Caxton at ddibenion rhoi cymorth ariannol i mi.

Rwyf yn deall y gallai fod angen i'r GIG gael gafael ar ddata a gedwir arnaf gan gyrff cyhoeddus eraill ac/neu wneud unrhyw ymholiadau ychwanegol gyda chyrff cyhoeddus eraill a allai fod yn angenrheidiol er mwyn dod i benderfyniad ynghylch fy nghais.

| Llofnod yr Ymgeisydd | | Dyddiad | |
|---|---|---|---|

## SUT RYDYM YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Dim ond at ddibenion gwirio eich cymhwysedd i gael taliad ac i weinyddu eich cais y bydd yr wybodaeth bersonol a ddarperir gennych ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio.

Os bydd anghydfod ynglŷn â'ch cymhwysedd i gael taliad, gellir datgelu eich gwybodaeth i'r Panel Apeliadau. Os ystyrir bod eich cais yn anghymwys, gall Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gadw eich ffurflen gais ar ffeil, fel bod gennym gofnod hanesyddol llawn os byddwch yn cyflwyno apêl neu os byddwch yn ailymgeisio am daliad yn ddiweddarach; beth bynnag, bydd gwybodaeth sydd gennym amdanoch yn cael ei chadw at y diben y gwnaethom ei chasglu, ac yn cael ei chadw am o leiaf chwe blynedd.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol ac yn cael ei chadw'n ddiogel, yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data, ac ni fydd yn cael ei rhannu gydag unrhyw sefydliad arall. Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn Rheolwr Data o dan y Ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch. Rydym wedi rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am ein gweithgareddau prosesu data, a'n rhif cofrestru yw Z5021900.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch defnyddio'ch gwybodaeth, neu os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch sut mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu, neu os hoffech gael copi o'r wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch, cysylltwch â ni drwy ysgrifennu at Ganolfan Ganser Felindre, Felindre Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2TL. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth, darllenwch y Polisi Preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan.

## RHAN 2 MANYLION YR YMGEISYDD

Cyfeirnod WIBSS

Teitl

Enw Cyntaf

Enw (au) canol

Cyfenw

Enwau Blaenorol

Cyfeiriad

Cod Post

Rhif Ffôn Cartref

Rhif Ffôn Symudol

Cyfeiriad E-bost

Dyddiad Geni

Beth yw eich statws priodasol?

| Ticiwch Un Opsiwn Isod | ✓ |
|---|---|
| Wedi priodi | |
| Partneriaeth Sifil | |
| Gŵr/gwraig weddw | |
| Wedi ysgaru | |
| Wedi gwahanu | |
| Sengl | |
| Yn byw gyda phartner | |

NODER – Ar gyfer y cwestiynau isod, plentyn dibynnol yw unrhyw unigolyn o dan 18 oed, neu unrhyw un o dan 21 oed sydd mewn addysg amser llawn. I gyfrif fel byw yn eich cartref, mae angen iddynt fod yn byw yno y rhan fwyaf o'r amser.

Faint o blant dibynnol sy'n byw yn eich cartref?

Faint o oedolion sy'n byw yn eich cartref? Ar gyfer y cwestiwn hwn, oedolyn yw unrhyw un sy'n 21 oed neu'n hŷn (heb gynnwys e.e. pobl sy'n rhannu fflat gyda chi neu lojyrs)

Os oes gennych chi unrhyw blant dibynnol, rhowch eu henwau a'u dyddiadau geni yma:

Beth yw eich statws cyflogaeth?

| Ticiwch Un Opsiwn Isod | ✓ |
|---|---|
| Cyflogedig – Amser Llawn | |
| Cyflogedig – Rhan Amser | |
| Hunangyflogedig | |
| Di-waith | |
| Wedi ymddeol | |
| Mewn addysg | |
| Arall (nodwch): | |

## RHAN 3 MANYLION O'R GRANT YR YMGEISIR AMDANO

Beth ydy swm y grant rydych chi'n gofyn amdano? £

Rhowch fanylion llawn yn nodi sut y buasech chi'n gwario'r grant hwn:

Sut y byddai'r grant hwn o fudd i chi?

Ydych chi wedi gwneud cais i unrhyw un arall am y cymorth hwn?
(E.e. awdurdod lleol, Bwrdd y GIG, cymdeithas dai, cyrff ariannu myfyrwyr, cynllun Motability, sefydliadau elusennol, ac ati.) Do ☐ Naddo ☐

Os 'Do', rhowch fanylion unrhyw geisiadau rydych chi wedi eu gwneud, a chanlyniad y rhain

A oes angen unrhyw ganiatâd arnoch mewn perthynas â sut y caiff y grant hwn ei wario? (E.e. gwarantau adeiladu, caniatâd cynllunio, ☐ Oes Nac oes ☐

caniatâd adeiladu, ac ati)

Os 'Oes', rhowch fanylion

| |
|---|
| |

## RHAN 4 INCWM A CHYNILION

Rhowch fanylion incwm eich cartref. Os yw eich incwm yn amrywio, rhowch y ffigur incwm cyfartalog dros y chwe mis diwethaf.  Does dim angen i chi gynnwys taliadau a gewch o Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru, nac unrhyw log a dderbynnir ar y taliadau hynny.

**Ni** fydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i benderfynu p’un a ydych yn gymwys i gael y grant ond yn hytrach, p’un a ydych yn gymwys i gael unrhyw fudd-daliadau nad ydych yn eu hawlio ar hyn o bryd.

Nodwch unrhyw gynilion neu fuddsoddiadau asydd gennych sy'n fwy na £5,000 (sylwer – does dim angen i chi gynnwys cyfandaliadau untro a dderbynnir o Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru)

| Math o Incwm | Incwm Misol (ar ôl treth) |
|---|---|
| Incwm o gyflogaeth | £ |
| Tâl Salwch o gyflogaeth | £ |
| Pensiynau'r wladwriaeth | £ |
| Pensiynau eraill | £ |
| Incwm o gynilion neu fuddsoddiadau (fel llog a difidendau) | £ |
| Budd-daliadau – Credyd Cynhwysol | £ |
| Budd-daliadau – Credydau Treth, Credyd Pensiwn a Budd-daliadau Incwm Isel eraill | £ |
| Budd-daliadau– Lwfans Ceisio Gwaith | £ |
| Budd-daliadau – Lwfans Cyflogaeth a Chymorth | £ |
| Budd-daliadau –Taliadau Annibyniaeth Bersonol, Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl | £ |
| Budd-daliadau – Budd-daliadau Plant a Theulu | £ |
| Budd-daliadau–Budd-daliadau Tai | £ |
| Budd-daliadau – Lwfans Profedigaeth | £ |
| Incwm rheolaidd arall – nodwch: | £ |
| Cynilion | £ |
| Cyfranddaliadau | £ |
| Cyfalaf arall a ddelir (e.e. gwerth unrhyw dir neu eiddo rydych chi'n berchen arno, heb gynnwys eich prif gartref) | £ |

## RHAN 5 GWARIANT EICH CARTREF

Ni fydd y ffigurau hyn yn cael eu defnyddio wrth edrych ar eich cymhwysedd i gael y grant; edrychir ar y wybodaeth hon i weld p’un a allwn eich cynorthwyo i ostwng eich gwariant misol beth bynnag. Er enghraifft, edrych ar wahanol gyflenwyr nwy a thrydan.

| Math o Wariant | Taliad Misol |
|---|---|
| Morgais neu rhent | £ |
| Y Dreth Gyngor a dŵr | £ |
| Nwy a thrydan | £ |
| Teledu, ffôn a’r rhyngrwyd | £ |
| Cadw tŷ (e.e. nwyddau groser) | £ |
| Yswiriant adeiladau a chynnwys | £ |
| Costau moduro (e.e. taliadau, gwasanaethu, treth, yswiriant) | £ |
| Mathau eraill o yswiriant | £ |
| Dillad ac eitemau personol | £ |
| Costau teithio rheolaidd | £ |
| Ffioedd banc | £ |
| Benthyciadau, cardiau credyd a thaliadau dyled eraill | £ |
| Gwariant rheolaidd eraill (nodwch): | £ |